



OFFERYNNAU STATUDOL
CYMRU

WELSH STATUTORY
INSTRUMENTS

2020 Rhif 1288 (Cy. 286)

2020 No. 1288 (W. 286)

**IECHYD Y CYHOEDD,
CYMRU**

PUBLIC HEALTH, WALES

Rheoliadau Diogelu Iechyd
(Coronafeirws, Teithio
Rhyngwladol a Chyfyngiadau)
(Diwygio) (Rhif 2) (Cymru) 2020

The Health Protection
(Coronavirus, International Travel
and Restrictions) (Amendment)
(No. 2) (Wales) Regulations 2020

NODYN ESBONIADOL

(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Rheoliadau)

Mae'r Rheoliadau hyn yn gwneud diwygiadau i Reoliadau Diogelu Iechyd (Coronafeirws, Teithio Rhyngwladol) (Cymru) 2020 (O.S. 2020/574 (Cy. 132)) (y "Rheoliadau Teithio Rhyngwladol") a Rheoliadau Diogelu Iechyd (Cyfyngiadau Coronafeirws) (Rhif 4) (Cymru) 2020 (O.S. 2020/1219 (Cy. 276)) ("Rheoliadau Rhif 4"). Maent hefyd yn gwneud diwygiad canlyniadol i Reoliadau Diogelu Iechyd (Coronafeirws, Teithio Rhyngwladol a Chyfyngiadau) (Diwygio) (Cymru) 2020 (O.S. 2020/1237 (Cy. 279)).

Mae'r Rheoliadau Teithio Rhyngwladol yn gosod gofynion ar bersonau sy'n dod i Gymru ar ôl bod dramor. Maent yn cynnwys gofyniad i bersonau sy'n cyrraedd Cymru ynysu am gyfnod i'w bennu yn unol â'r Rheoliadau. Mae gofynion y Rheoliadau Teithio Rhyngwladol yn ddarostyngedig i eithriadau, ac mae categorïau penodol o bersonau wedi eu hesemtio rhag gorfod cydymffurfio. Nid yw'n ofynnol i bersonau sy'n dod i Gymru ynysu ar ôl bod mewn un neu ragor o'r gwledydd a'r tiriogaethau a restrir yn Atodlen 3 i'r Rheoliadau Teithio Rhyngwladol. Cyfeirir at y gwledydd a'r tiriogaethau a restrir yn Atodlen 3 fel "gwledydd a thiriogaethau esempt".

EXPLANATORY NOTE

(This note is not part of the Regulations)

These Regulations make amendments to the Health Protection (Coronavirus, International Travel) (Wales) Regulations 2020 (S.I. 2020/574 (W. 132)) (the "International Travel Regulations") and the Health Protection (Coronavirus Restrictions) (No. 4) (Wales) Regulations 2020 (S.I. 2020/1219 (W. 276)) (the "No. 4 Regulations"). They also make a consequential amendment to the Health Protection (Coronavirus, International Travel and Restrictions) (Amendment) (Wales) Regulations 2020 (S.I. 2020/1237 (W. 279)).

The International Travel Regulations impose requirements on persons entering Wales after having been abroad. They include a requirement for persons arriving in Wales to isolate for a period determined in accordance with the Regulations. The requirements imposed by the International Travel Regulations are subject to exceptions, and certain categories of person are exempt from having to comply. Persons entering Wales after being in one or more of the countries and territories listed in Schedule 3 to the International Travel Regulations are not required to isolate. The countries and territories listed in Schedule 3 are referred to as "exempt countries and territories".

Mae rheoliad 2 yn diwygio'r Rheoliadau Teithio Rhyngwladol er mwyn—

- (a) caniatáu i berson y mae'n ofynnol iddo ynysu o dan reoliad 12A o ganlyniad i'r ffaith iddo fod yn Nenmarc, neu fod ar yr un aelwyd â pherson sydd wedi bod yn Nenmarc, adael y man lle y mae'n ynysu er mwyn ymadael â Chymru;
- (b) mewnosod rheoliad 12B newydd yn y Rheoliadau hynny i wahardd unrhyw awyren neu long sy'n dod yn uniongyrchol o Ddenmarc rhag cyrraedd Cymru ac eithrio am resymau diogelwch;
- (c) ychwanegu Bahrain, Cambodia, Chile, yr Emiraethau Arabaidd Unedig, Gwlad yr Iâ, Laos, Qatar ac Ynysoedd Turks a Caicos at y rhestr o weledydd a thiriogaethau esempt;
- (d) hepgor Ardaloedd Safleoedd Sofran Akrotiri a Dhekelia ar Ynys Cyprus a Gwlad Groeg i gyd, ac eithrio ynysoedd Corfu, Creta, Kos, Ródhos a Zakynthos, o'r rhestr o wledydd a thiriogaethau esempt;
- (e) gwneud mân ddiwygiadau a diwygiadau canlyniadol eraill.

Mae rheoliad 3 yn darparu nad yw'r rheoliad 12B newydd o'r Rheoliadau Teithio Rhyngwladol yn gymwys pan fo taith awyren neu long wedi cychwyn cyn y daeth rheoliad 12B i rym.

Mae rheoliadau 4 a 5 o'r Rheoliadau hyn yn gwneud darpariaethau trosiannol mewn cysylltiad â'r gwledydd a'r tiriogaethau y mae eu statws wedi newid. Mae'r darpariaethau trosiannol yn ymdrin â maes a all fod yn destun amheuaeth o ran effaith y diwygiadau a wneir gan reoliad 2(5) i (8) o'r Rheoliadau hyn ar weithredu'r Rheoliadau Teithio Rhyngwladol.

Mae rheoliad 6 yn diwygio Rheoliadau Rhif 4 er mwyn—

- (a) darparu y caiff person y mae'n ofynnol iddo beidio â gadael y man lle y mae'n byw o dan reoliad 18A o Reoliadau Rhif 4 (darpariaeth sy'n ymwneud â phersonau sydd wedi bod yn Nenmarc yn ddiweddar) adael y man hwnnw er mwyn ymadael â Chymru;
- (b) gwneud mân ddiwygiadau a diwygiadau canlyniadol eraill.

Ystyriwyd Cod Ymarfer Gweinidogion Cymru ar gynnal Aseidiadau Effaith Rheoleiddiol mewn perthynas â'r Rheoliadau hyn. O ganlyniad, ni luniwyd aseiad effaith rheoleiddiol o'r costau a'r manteision sy'n debygol o ddeillio o gydymffurfio â'r Rheoliadau hyn.

Regulation 2 amends the International Travel Regulations to—

- (a) permit a person who is required to isolate under regulation 12A as a result of having been in Denmark, or being in the same household as a person who has been in Denmark, to leave the place where they are isolating in order to leave Wales;
- (b) insert a new regulation 12B into those Regulations prohibiting any aircraft or ship coming directly from Denmark from arriving in Wales except for safety reasons;
- (c) add Bahrain, Cambodia, Chile, Iceland, Laos, Qatar, Turks and Caicos Islands, and the United Arab Emirates to the list of exempt countries and territories;
- (d) remove the Sovereign Base Areas of Akrotiri and Dhekelia in the Island of Cyprus and all of Greece, other than the islands of Corfu, Crete, Kos, Rhodes and Zakynthos, from the list of exempt countries and territories;
- (e) make other minor and consequential amendments.

Regulation 3 provides that new Regulation 12B of the International Travel Regulations does not apply where an aircraft or ship's journey began before Regulation 12B came into force.

Regulations 4 and 5 of these Regulations make transitional provision relating to the countries and territories whose status has changed. The transitional provisions address a potential area of doubt in terms of the effect on the operation of the International Travel Regulations, of the amendments made by regulation 2(5) to (8) of these Regulations.

Regulation 6 amends the No. 4 Regulations to—

- (a) provide that a person required not to leave the place where they are living under regulation 18A of the No. 4 Regulations (provision relating to persons who have recently been in Denmark) may leave that place in order to leave Wales;
- (b) make other minor and consequential amendments.

The Welsh Ministers' Code of Practice on the carrying out of Regulatory Impact Assessments was considered in relation to these Regulations. As a result, a regulatory impact assessment has not been prepared as to the likely cost and benefit of complying with these Regulations.

2020 Rhif 1288 (Cy. 286)

2020 No. 1288 (W. 286)

**IECHYD Y CYHOEDD,
CYMRU**

PUBLIC HEALTH, WALES

**Rheoliadau Diogelu Iechyd
(Coronafeirws, Teithio
Rhyngwladol a Chyfyngiadau)
(Diwygio) (Rhif 2) (Cymru) 2020**

**The Health Protection
(Coronavirus, International Travel
and Restrictions) (Amendment)
(No. 2) (Wales) Regulations 2020**

Cymeradwywyd gan Senedd Cymru

Approved by Senedd Cymru

Gwnaed am 5.04 p.m. ar 13 Tachwedd 2020

Made at 5.04 p.m. on 13 November 2020

*Gosodwyd gerbron Senedd
Cymru am 7.00 p.m. ar 13 Tachwedd 2020*

*Laid before Senedd
Cymru at 7.00 p.m. on 13 November 2020*

*Yn dod i rym am 4.00 a.m. ar 14 Tachwedd
2020*

*Coming into force at 4.00 a.m. on 14
November 2020*

Mae Gweinidogion Cymru yn gwneud y Rheoliadau a ganlyn drwy arfer y pwerau a roddir gan adrannau 45B, 45C(1) a (3)(c), 45F(2) a 45P(2) o Ddeddf Iechyd y Cyhoedd (Rheoli Clefydau) 1984(1).

The Welsh Ministers make the following Regulations in exercise of the powers conferred by sections 45B, 45C(1) and (3)(c), 45F(2) and 45P(2) of the Public Health (Control of Disease) Act 1984(1).

Mae'r Rheoliadau hyn wedi eu gwneud mewn ymateb i'r bygythiad difrifol ac uniongyrchol i iechyd y cyhoedd a berir gan fynychder a lledaeniad coronafeirws syndrom anadlol aciwt difrifol 2 (SARS-CoV-2) yng Nghymru.

These Regulations are made in response to the serious and imminent threat to public health which is posed by the incidence and spread of severe acute respiratory syndrome coronavirus 2 (SARS-CoV-2) in Wales.

Mae Gweinidogion Cymru yn ystyried bod y cyfyngiadau a'r gofynion a osodir gan y Rheoliadau hyn yn gymesur â'r hyn y maent yn ceisio ei gyflawni, sef ymateb iechyd y cyhoedd i'r bygythiad hwnnw.

The Welsh Ministers consider that restrictions and requirements imposed by these Regulations are proportionate to what they seek to achieve, which is a public health response to that threat.

Yn unol ag adran 45R o'r Ddeddf honno, oherwydd brys, mae Gweinidogion Cymru o'r farn ei bod yn angenrheidiol gwneud yr offeryn hwn heb fod drafft wedi ei osod gerbron Senedd Cymru ac wedi ei gymeradwyo ganddi drwy benderfyniad.

In accordance with section 45R of that Act the Welsh Ministers are of the opinion that, by reason of urgency, it is necessary to make this instrument without a draft having been laid before, and approved by a resolution of, Senedd Cymru.

(1) 1984 p. 22. Mewnosodwyd adrannau 45C, 45F a 45P gan adran 129 o Ddeddf Iechyd a Gofal Cymdeithasol 2008 (p. 14). Mae'r swyddogaethau o dan yr adrannau hyn wedi eu rhoi i "the appropriate Minister" ("y Gweinidog priodol"). O dan adran 45T(6) o Ddeddf 1984, y Gweinidog priodol, o ran Cymru, yw Gweinidogion Cymru.

(1) 1984 c. 22. Sections 45C, 45F and 45P were inserted by section 129 of the Health and Social Care Act 2008 (c. 14). The functions under these sections are conferred on "the appropriate Minister". Under section 45T(6) of the 1984 Act the appropriate Minister, as respects Wales, is the Welsh Ministers.

Enwi, dod i rym a dehongli

1.—(1) Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau Diogelu Iechyd (Coronafeirws, Teithio Rhyngwladol a Chyfyngiadau) (Diwygio) (Rhif 2) (Cymru) 2020.

(2) Daw'r Rheoliadau hyn i rym am 4.00 a.m. ar 14 Tachwedd 2020.

(3) Yn y Rheoliadau hyn, ystyr y "Rheoliadau Teithio Rhyngwladol" yw Rheoliadau Diogelu Iechyd (Coronafeirws, Teithio Rhyngwladol) (Cymru) 2020(1).

Diwygio Rheoliadau Diogelu Iechyd (Coronafeirws, Teithio Rhyngwladol) (Cymru) 2020

2.—(1) Mae'r Rheoliadau Teithio Rhyngwladol wedi eu diwygio fel a ganlyn.

(2) Yn rheoliad 12A—

(a) ym mharagraff (4), yn y testun Saesneg, yn lle "by", lle y mae'n digwydd am yr ail dro, rhodder "of";

(b) ym mharagraff (7), yn y rheoliad 10(4) a addaswyd—

(i) yn y testun Cymraeg, yn lle is-baragraff (a)(ii) rhodder—

"(ii) i osgoi salwch difrifol, anaf difrifol neu risg arall o niwed difrifol;"

(ii) ar ôl is-baragraff (a)(ii) mewnosoder—

"(iii) er mwyn teithio at ddiben ymadael â Chymru;"

(3) Ar ôl rheoliad 12A mewnosoder—

Title, coming into force and interpretation

1.—(1) The title of these Regulations is the Health Protection (Coronavirus, International Travel and Restrictions) (Amendment) (No. 2) (Wales) Regulations 2020.

(2) These Regulations come into force at 4.00 a.m. on 14 November 2020.

(3) In these Regulations, the "International Travel Regulations" means the Health Protection (Coronavirus, International Travel) (Wales) Regulations 2020(1).

Amendment of the International Travel Regulations

2.—(1) The International Travel Regulations are amended as follows.

(2) In regulation 12A—

(a) in paragraph (4), in the English language text, for "by", the second time it occurs, substitute "of";

(b) in paragraph (7), in the modified regulation 10(4)—

(i) in the Welsh language text, for sub-paragraph (a)(ii) substitute—

"(ii) i osgoi salwch difrifol, anaf difrifol neu risg arall o niwed difrifol;"

(ii) after sub-paragraph (a)(ii) insert—

"(iii) to travel for the purpose of leaving Wales;"

(3) After regulation 12A insert—

(1) O.S. 2020/574 (Cy. 132) fel y'i diwygiwyd gan O.S. 2020/595 (Cy. 136), O.S. 2020/714 (Cy. 160), O.S. 2020/726 (Cy. 163), O.S. 2020/804 (Cy. 177), O.S. 2020/817 (Cy. 179), O.S. 2020/840 (Cy. 185), O.S. 2020/868 (Cy. 190), O.S. 2020/886 (Cy. 196), O.S. 2020/917 (Cy. 205), O.S. 2020/944 (Cy. 210), O.S. 2020/962 (Cy. 216), O.S. 2020/981 (Cy. 220), O.S. 2020/1015 (Cy. 226), O.S. 2020/1042 (Cy. 231), O.S. 2020/942, O.S. 2020/1080 (Cy. 243), O.S. 2020/1098 (Cy. 249), O.S. 2020/1133 (Cy. 258), O.S. 2020/1165 (Cy. 263), O.S. 2020/1191 (Cy. 269), O.S. 2020/1223 (Cy. 277), O.S. 2020/1232 (Cy. 278) ac O.S. 2020/1237 (Cy. 279)

(1) S.I. 2020/574 (W. 132) as amended by S.I. 2020/595 (W. 136), S.I. 2020/714 (W. 160), S.I. 2020/726 (W. 163), S.I. 2020/804 (W. 177), S.I. 2020/817 (W. 179), S.I. 2020/840 (W. 185), S.I. 2020/868 (W. 190), S.I. 2020/886 (W. 196), S.I. 2020/917 (W. 205), S.I. 2020/944 (W. 210), S.I. 2020/962 (W. 216), S.I. 2020/981 (W. 220), S.I. 2020/1015 (W. 226), S.I. 2020/1042 (W. 231), S.I. 2020/942, S.I. 2020/1080 (W. 243), S.I. 2020/1098 (W. 249), S.I. 2020/1133 (W. 258), S.I. 2020/1165 (W. 263), S.I. 2020/1191 (W. 269), S.I. 2020/1223 (W. 277), S.I. 2020/1232 (W. 278) and S.I. 2020/1237 (W. 279)

“RHAN 3A

Teithio o Ddenmarc

Gwahardd awyrennau a llestrau rhag teithio'n uniongyrchol o Ddenmarc

12B.—(1) Ni chaiff person sy'n rheoli neu'n gyfrifol am reolaeth awyren neu lestr yr oedd ei man ymadael diwethaf yn Nenmarc beri na chaniatáu iddi gyrraedd Cymru, oni fo'n rhesymol angenrheidiol iddi wneud hynny er mwyn sicrhau—

- (a) diogelwch yr awyren neu'r llestr, neu
- (b) iechyd a diogelwch unrhyw berson sydd arni.

(2) Nid yw paragraff (1) yn gymwys i—

- (a) awyren neu lestr a weithredir yn fasnachol ac nad yw'n cludo unrhyw deithwyr;
- (b) awyren neu lestr a weithredir gan Lywodraeth Ei Mawrhydi neu er mwyn cefnogi Llywodraeth Ei Mawrhydi yn y Deyrnas Unedig.

(3) Yn y rheoliad hwn—

- (a) ystyr “cyrraedd” yw—
 - (i) mewn perthynas ag awyren, glanio;
 - (ii) mewn perthynas â llestr, angori yn unrhyw fan arall;
- (b) ystyr “teithiwr” yw person a gludir mewn awyren neu ar lestr ac eithrio aelod o'i chriw.”

(4) Yn rheoliad 14(1)—

- (a) yn is-baragraff (e), hepgorer “neu”;
- (b) yn is-baragraff (f), ar y diwedd mewnosoder “neu”;
- (c) ar ôl is-baragraff (f) mewnosoder—
“(g) 12B(1).”

(5) Yn Rhan 1 o Atodlen 3 (gwledydd a thiriogaethau esempt y tu allan i'r ardal deithio gyffredin), yn y man priodol mewnosoder—

- “Bahrain”
- “Cambodia”
- “Chile”
- “Corfu”
- “Creta”
- “Yr Emiraethau Arabaidd Unedig”
- “Gwlad yr Iâ”
- “Kos”

“PART 3A

Travel from Denmark

Prohibition on the arrival of aircraft and vessels travelling directly from Denmark

12B.—(1) The person with management or control of an aircraft or vessel whose last point of departure was in Denmark must not cause or permit it to arrive in Wales, unless it is reasonably necessary for it to do so to secure—

- (a) the safety of the aircraft or vessel, or
- (b) the health and safety of any person aboard it.

(2) Paragraph (1) does not apply to—

- (a) a commercially operated aircraft or vessel carrying no passengers;
- (b) an aircraft or vessel operated by or in support of Her Majesty's Government in the United Kingdom.

(3) In this regulation—

- (a) “arrive” means—
 - (i) in relation to an aircraft, to land;
 - (ii) in relation to a vessel, to moor at any place;
- (b) “passenger” means a person carried in or on an aircraft or vessel other than a member of its crew.”

(4) In regulation 14(1)—

- (a) in sub-paragraph (e), omit “or”;
- (b) in sub-paragraph (f), at the end insert “or”;
- (c) after sub-paragraph (f) insert—
“(g) 12B(1).”

(5) In Part 1 of Schedule 3 (exempt countries and territories outside the common travel area), at the appropriate place insert—

- “Bahrain”
- “Cambodia”
- “Chile”
- “Corfu”
- “Crete”
- “Iceland”
- “Kos”
- “Laos”

“Laos”
“Qatar”
“Ródhos”
“Zakynthos”.

(6) Yn Rhan 2 o Atodlen 3 (Tiriogaethau Tramor y Deyrnas Unedig), yn y man priodol mewnosoder—

“Ynysoedd Turks a Caicos”.

(7) Yn Rhan 1 o Atodlen 3 (gwledydd a thiriogaethau esempt y tu allan i'r ardal deithio gyffredin), hepgorer—

“Gwlad Groeg”.

(8) Yn Rhan 2 o Atodlen 3 (Tiriogaethau Tramor y Deyrnas Unedig), hepgorer—

“Ardaloedd Safleoedd Sofran Akrotiri a Dhekelia ar Ynys Cyprus”.

“Rhodes”
“Qatar”
“United Arab Emirates”
“Zakynthos”.

(6) In Part 2 of Schedule 3 (United Kingdom Overseas Territories), at the appropriate place insert—

“Turks and Caicos Islands”.

(7) In Part 1 of Schedule 3 (exempt countries and territories outside the common travel area), omit—

“Greece”.

(8) In Part 2 of Schedule 3 (United Kingdom Overseas Territories), omit—

“The Sovereign Base Areas of Akrotiri and Dhekelia in the Island of Cyprus”.

Darpariaeth drosiannol sy'n ymwneud â rheoliad 2(2)

3. Nid yw rheoliad 12B o Reoliadau Diogelu Iechyd (Coronafeirws, Teithio Rhyngwladol) (Cymru) 2020, a fewnosodir gan reoliad 2(3) o'r Rheoliadau hyn, yn gymwys mewn cysylltiad ag unrhyw hediad neu daith a gychwynnodd cyn i'r Rheoliadau hyn ddod i rym.

Darpariaeth drosiannol mewn cysylltiad â rheoliad 2(5) a (6)

4.—(1) Mae paragraff (2) yn gymwys pan, yn union cyn 4.00 a.m. ar 14 Tachwedd 2020—

(a) oedd person (“P”) yn ddarostyngedig i ofyniad i ynysu yn rhinwedd y ffaith iddo gyrraedd Cymru o wlad neu diriogaeth a restrir yn rheoliad 2(5) neu (6), neu ar ôl bod mewn gwlad neu diriogaeth o'r fath, a

(b) diwrnod olaf ynysiad P yw 14 Tachwedd 2020 neu wedi hynny.

(2) Nid yw ychwanegu'r gwledydd a'r tiriogaethau a restrir yn rheoliad 2(5) and (6) at Rannau 1 a 2 o Atodlen 3 i'r Rheoliadau Teithio Rhyngwladol yn effeithio ar y gofyniad i ynysu fel y mae'n gymwys i P, nac ar y modd y pennir diwrnod olaf ynysiad P o dan y Rheoliadau Teithio Rhyngwladol.

(3) Mae paragraff (4) yn gymwys pan fo person (“P”)—

(a) yn cyrraedd Cymru am 4.00 a.m. ar 14 Tachwedd 2020 neu wedi hynny, a

(b) wedi bod mewn gwlad neu diriogaeth a restrir yn rheoliad 2(5) neu (6) o fewn y cyfnod o 14 o ddiwrnodau sy'n dod i ben â'r diwrnod y mae P yn cyrraedd Cymru.

Transitional provision relating to regulation 2(3)

3. Regulation 12B of the Health Protection (Coronavirus, International Travel) (Wales) Regulations 2020, inserted by regulation 2(3) of these Regulations, does not apply in respect of any flight or voyage that commenced before these Regulations come into force.

Transitional provision in connection with regulation 2(5) and (6)

4.—(1) Paragraph (2) applies where, immediately before 4.00 a.m. on 14 November 2020—

(a) a person (“P”) was subject to an isolation requirement by virtue of having arrived in Wales from, or having been in a country or territory listed in regulation 2(5) or (6), and

(b) P's last day of isolation is 14 November 2020 or later.

(2) The addition of the countries and territories listed in regulation 2(5) and (6) to Parts 1 and 2 of Schedule 3 to the International Travel Regulations does not affect the isolation requirement as it applies to P, nor affect how P's last day of isolation is determined under the International Travel Regulations.

(3) Paragraph (4) applies where a person (“P”)—

(a) arrives in Wales at or after 4.00 a.m. on 14 November 2020, and

(b) was in a country or territory listed in regulation 2(5) or (6) within the period of 14 days ending with the day of P's arrival in Wales.

(4) At ddibenion rheoliadau 7(1) ac 8(1) o'r Rheoliadau Teithio Rhyngwladol, mae'r cwestiwn o ran a yw P wedi cyrraedd Cymru o wlad neu diriogaeth nad yw'n esempt neu ar ôl bod mewn gwlad neu diriogaeth o'r fath i'w bennu, mewn perthynas â gwlad neu diriogaeth a restrir yn rheoliad 2(5) neu (6), drwy gyfeirio at ba un a oedd y wlad neu'r diriogaeth yn wlad neu'n diriogaeth nad yw'n esempt pan oedd P yno ddiwethaf (ac nid drwy gyfeirio at statws y wlad neu'r diriogaeth pan fo P yn cyrraedd Cymru).

(5) Yn y rheoliad hwn, mae i "gofyniad i ynysu" yr ystyr a roddir gan reoliad 10(2) o'r Rheoliadau Teithio Rhyngwladol; ac mae cyfeiriadau at ddiwrnod olaf ynysiad P i'w dehongli yn unol â rheoliad 12 o'r Rheoliadau hynny.

Darpariaeth drosiannol mewn cysylltiad â rheoliad 2(7) a (8)

5.—(1) Mae paragraff (2) yn gymwys pan fo person ("P")—

- (a) yn cyrraedd Cymru am 4:00 a.m. ar 14 Tachwedd 2020 neu wedi hynny, a
- (b) wedi bod mewn gwlad neu diriogaeth a restrir yn rheoliad 2(7) neu (8) ddiwethaf—
 - (i) o fewn y cyfnod o 14 o ddiwrnodau sy'n dod i ben â'r diwrnod y mae P yn cyrraedd Cymru, a
 - (ii) cyn 4.00 a.m. ar 14 Tachwedd 2020.

(2) Mae P, yn rhinwedd y ffaith iddo fod mewn gwlad neu diriogaeth a restrir yn rheoliad 2(7) neu (8), i'w drin at ddibenion rheoliadau 7(1) ac 8(1) o'r Rheoliadau Teithio Rhyngwladol fel pe bai wedi cyrraedd Cymru o wlad neu diriogaeth nad yw'n esempt, neu fel pe bai wedi cyrraedd ar ôl bod mewn gwlad neu diriogaeth o'r fath.

Diwygio Rheoliadau Diogelu Iechyd (Cyfyngiadau Coronafeirws) (Rhif 4) (Cymru) 2020

6.—(1) Mae Rheoliadau Diogelu Iechyd (Cyfyngiadau Coronafeirws) (Rhif 4) (Cymru) 2020(1) wedi eu diwygio fel a ganlyn.

(2) Yn rheoliad 18A—

- (a) ym mharagraff (2)—
 - (i) hepgorer "4,";
 - (ii) ar ôl "â P" mewnosoder ", hyd at ddiwedd cyfnod y cyfyngiad";

(4) For the purposes of regulations 7(1) and 8(1) of the International Travel Regulations, the question of whether P has arrived in Wales from, or having been in, a non-exempt country or territory is, in relation to a country or territory listed in regulation 2(5) or (6), to be determined by reference to whether the country or territory was a non-exempt country or territory when P was last there (and not by reference to the country's or the territory's status upon P's arrival in Wales).

(5) In this regulation, "isolation requirement" has the meaning given by regulation 10(2) of the International Travel Regulations; and references to P's last day of isolation are to be interpreted in accordance with regulation 12 of those Regulations.

Transitional provision in connection with regulation 2(7) and (8)

5.—(1) Paragraph (2) applies where a person ("P")—

- (a) arrives in Wales at or after 4.00 a.m. on 14 November 2020, and
- (b) was last in a country or territory listed in regulation 2(7) or (8)—
 - (i) within the period of 14 days ending with the day of P's arrival in Wales, and
 - (ii) before 4.00 a.m. on 14 November 2020.

(2) P is, by virtue of having been in a country or territory listed in regulation 2(7) or (8), to be treated for the purposes of regulations 7(1) and 8(1) of the International Travel Regulations as having arrived in Wales from, or having been in, a non-exempt country or territory.

Amendment of the Health Protection (Coronavirus Restrictions) (No. 4) (Wales) Regulations 2020

6.—(1) The Health Protection (Coronavirus Restrictions) (No. 4) (Wales) Regulations 2020(1) are amended as follows.

(2) In regulation 18A—

- (a) in paragraph (2)—
 - (i) omit "4,";
 - (ii) after "with P" insert ", until the end of the restriction period";

(1) O.S. 2020/1219 (Cy. 276) fel y'i diwygiwyd gan O.S. 2020/1237 (Cy. 279).

(1) S.I. 2020/1219 (W. 276) as amended by S.I. 2020/1237 (W. 279).

(b) ym mharagraff (3), yn lle “y cyfnod o 14 diwrnod sy’n dechrau ar y diwrnod y cyrhaeddodd P Cymru” rhodder “cyfnod y cyfyngiad”;

(c) ym mharagraff (4), ar ôl is-baragraff (c) mewnosoder—

“(d) er mwyn teithio at ddiben ymadael â Chymru.”

(d) ar ôl paragraff (4) mewnosoder—

“(5) Yn y rheoliad hwn, ystyr “cyfnod y cyfyngiad” mewn perthynas â P ac unrhyw berson sy’n byw ar yr un aelwyd â P, yw’r cyfnod sy’n dod i ben â’r diwrnod sydd 14 o ddiwrnodau ar ôl i P gyrraedd Cymru ddiwethaf cyn 4.00 a.m. ar 7 Tachwedd 2020—

(a) o Ddenmarc, neu

(b) o unrhyw le arall, ar ôl bod yn Nenmarc ers i P fod yng Nghymru yn flaenorol.”

(3) Yn rheoliad 28—

(a) ym mharagraff (1), hepgorer “neu 18A(3)”;

(b) ym mharagraff (4), yn lle “neu 14(2)” rhodder “, 14(2) neu 18A(3)”.

(4) Yn rheoliad 31—

(a) ym mharagraff (1), hepgorer “neu 18A(3)”;

(b) ym mharagraff (4), yn lle “neu 14(2)” rhodder “, 14(2) neu 18A(3)”.

(5) Yn rheoliad 35(1)(a), ar ôl “16,” mewnosoder “18A(3).”

Diwygio Rheoliadau Diogelu Iechyd (Coronafeirws, Teithio Rhyngwladol a Chyfyngiadau) (Diwygio) (Cymru) 2020

7. Yn rheoliad 4 o Reoliadau Diogelu Iechyd (Coronafeirws, Teithio Rhyngwladol a Chyfyngiadau) (Diwygio) (Cymru) 2020(1), hepgorer paragraff (5).

(b) in paragraph (3), for “period of 14 days beginning with the day on which P arrived in Wales” substitute “restriction period”;

(c) in paragraph (4), after sub-paragraph (c) insert—

“(d) to travel for the purpose of leaving Wales.”

(d) after paragraph (4) insert—

“(5) In this regulation, the “restriction period” in relation to P and any person living in the same household with P, means the period ending with the day 14 days after P last arrived in Wales before 4.00 a.m. on 7 November 2020—

(a) from Denmark, or

(b) from any other place, having been in Denmark since P was previously in Wales.”

(3) In regulation 28—

(a) in paragraph (1), omit “18A(3)”;

(b) in paragraph (4), for “or 14(2)” substitute “, 14(2) or 18A(3)”.

(4) In regulation 31—

(a) in paragraph (1), omit “18A(3)”;

(b) in paragraph (4), for “or 14(2)” substitute “, 14(2) or 18A(3)”.

(5) In regulation 35(1)(a), after “16,” insert “18A(3).”

Amendment of the Health Protection (Coronavirus, International Travel and Restrictions) (Amendment) (Wales) Regulations 2020

7. In regulation 4 of the Health Protection (Coronavirus, International Travel and Restrictions) (Amendment) (Wales) Regulations 2020(1), omit paragraph (5).

Vaughan Gething

Y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol,
un o Weinidogion Cymru
Am 5.04 p.m. ar 13 Tachwedd 2020

Minister for Health and Social Services, one of the
Welsh Ministers
At 5.04 p.m. on 13 November 2020

©©Hawlfraint y Goron 2020

© Crown copyright 2020

Argraffwyd a chyhoeddwyd yn y Deyrnas Unedig gan The Stationery Office Limited o dan awdurdod ac arolygiaeth Jeff James, Rheolwr Gwasg Ei Mawrhydi ac Argraffydd Deddfau Seneddol y Frenhines.

Printed and published in the UK by The Stationery Office Limited under the authority and superintendence of Jeff James, Controller of Her Majesty’s Stationery Office and Queen’s Printer of Acts of Parliament.

(1) O.S. 2020/1237 (Cy. 278).

(1) S.I. 2020/1237 (W. 279).

£6.90

<http://www.legislation.gov.uk/id/wsi/2020/1288>

ISBN 978-0-348-11928-2



9 780348 119282